

# Gair bach Bethlehem 49



[www.bethlehem.cymru](http://www.bethlehem.cymru) [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social (yn hytrach nag ar X/trydar) Gwaelod-y-garth – rhif 49 (Cyn Nadolig 2024)

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

## Mae'r Nadolig yn nesáu!

I gadarnhau hynny, cafwyd sesiwn darparu addurniadau yn y festri, bawn Sul, Tachwedd 24<sup>ain</sup>. Mae'r cynnyrch gorffenedig i'w weld ar ffenestri Bethlehem. Dyma'ch cyfle i chi weld drosoch eich hunan y gwaith y bu raid i'r beirniad, Marged



Cartwright, eu cloriannu. Dyfarnodd osodiad Margaret yn fuddugol. Bu rhai o'r addurnwyr hefyd yn cwblhau'r llinell goll – a daeth Glenys i'r brig gyda'r canlynol:

*Fel bardd, rwy'n llwyr ddigalonni  
Does neb yn gwobrwyo fy ngherddi.  
Mi gollais amynedd  
Âr beirniad y llynedd -  
Hen fardd talcen slip yw y ffôni.*

Isod fe welwch y ddwy enillydd yn ymhyfrydu yn eu llwyddiant.



Mae lluniau'r holl dorchau eraill hefyd yn y rhifyn hwn.

*Nadolig Llawen i holl aelodau a  
chyfeillion Bethlehem.  
Cofion arbennig i'r rhai ohonoch na  
all fynychu mor aml ag y byddech  
yn dymuno. Rydyn ni'n meddwl  
amdanoch chi.*



Rhifyn llawn o newyddion  
am ein gweithgareddau  
fel Tŷ Cwrdd.

Bydd Rhifyn 50 allan yn fuan  
wedi'r Nadolig a'r Plygain.

Croeso i chi gyfrannu!



**Cofiwch am y Naw Llith a Charol ynghyd â Chôr Cf1, nos Sul hyn am 5.00**





# Cerdded yn y Goleuni.

Mae'n wirioneddol bwysig ein bod ni'n cerdded mae'n debyg, yn ôl y "dylanwadwyr", os taw dyna beth yw "influencers" yn y Gymraeg, "influencers" cofiwch, nid "influenzas" fel wedodd cyfaill i mi'n ddiweddar! Pam bod angen dylanwadwyr i ddweud hynny wrthon ni sa i'n gwybod achos mae'r ddynoliaeth wedi bod yn cerdded ers...wel, erioed! Fe gerddodd Adda ac Efa ma's o ardd

Eden, ac fe gerddodd eu had ar draws y byd yn eu sgîl. Ond mae'n rhyfedd, wrth feddwl am gerdded ar drothwy'r Nadolig, fe sylweddolais i na fyddde Mair a Joseff wedi gallu cerdded o Nasareth i Fethlehem eleni, a byddai'r Iesu ddim wedi gallu cerdded yn rhydd ar hyd llwybrau Galilea, a byddai Paul ddim wedi gallu cerdded yr holl ffordd i Ddamascus, a hynny am fod yr ardal ry'm ni'n gartrefol gyfeirio ato fel Gwlad yr Iesu dan gysgod rhyfeloedd. Ac nid jesd Gwlad yr Iesu, ond gwledydd o gyfandir Affrica i gyfandir Asia. Byddai'n hawdd anobeithio'n llwyr, ond, wrth whilmentan yr wythnos hon fe ddes i ar draws yr erthygl yma yn Y Cymro, ond nid Y Cymro - Rhagfyr 2024, ond Y Cymro - Rhagfyr 1940.

*"Mae'r march coch ar gerdded drwy'r gwledydd a diystyr iddo ef, yn ei raib, a'i rwysg a'i rodres, yw'r tangnefedd ac ewyllys da a berthyn i Wyl y Nadolig. Eithr fe ddychwela'r amseroedd gwell. Nid yw tinc arfau i dorri yn dragywydd ar gân angylion ac nid yw rhuthr cad i fathru teimladau o ewyllys da am byth."*

Geiriau gobeithiol a sgrifennwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, oedd yn lled adleisio carol a gyfansoddwyd gan Hedd Wyn yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf:

**"Deuwch engyl eto i ganu  
Uwch ein hen ryfelgar fyd,  
Cenwch wrthym am yr Iesu  
All dawelu'r brwydrau i gyd;  
Yn y moliant  
Uned holl deyrnasoedd byd."**

Ydy, mae'n hawdd anobeithio wrth weld y byd fel y mae ar hyn o bryd, ond mae'r Nadolig yn ein hatgoffa bod wastod gobaith na fydd tinc arfau'n torri'n ddi baid ar gân angylion a'u haddewid o Dangnefedd. Ac wrth i ni gynnu canhwyllau yn y capel yn ystod yr Adfent, ac ar ein haelwydydd dros yr Wyl, galwn i gof gerdd Dic Jones "Dilyn y Goleuni" sy'n ein hatgoffa bo' ni ddim ar ein pen ein hunain wrth i ni godi llais dros Dangnefedd a Heddwch:

**"Un gannwyll yn ugeiniau - ugeiniau'n  
Gannoedd a'u pabwyrâu  
'N filoedd o gannoedd, yn gwau  
I'w gilydd yn un golau."**

Goleuni'r gannwyll. Goleuni'r angylion yn disgleirio ar y bugeiliaid. Goleuni'r seren yn arwain y Doethion. Goleuni'r Nadolig cyntaf. Goleuni Tywysog Tangnefedd oedd yn gorwedd yn y preseb, ac "ynddo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef."

Gŵyl y Geni.

Gŵyl llawn Goleuni.

Gŵyl llawn Gobaith.

Ac mewn gobaith, ga'i ddymuno Nadolig Llawn i chi gyd, a Blwyddyn Newydd Heddychlon a Thangnefeddus.

*Delwyn.*

# Suliau Bethlehem – Cyfnod y Nadolig a'r Plygain

## Gweddill Mis Rhagfyr 2024:

15 – Oedfa 9 Llith a Charol (5:00 p.m.)  
22 – Nadolig yr Ysgol Sul (10:30 a.m.)  
25 – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)

## Mis Ionawr 2025: (am 10:30 a.m.)

5 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion  
12 – Plygain (4:00 p.m.)  
19 – Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John  
26 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths

HEFYD - Ionawr 24ain, Cylch Cadwgan – Eurig Davies, darlith - "Beibl Peter Williams, Festri Bethlehem.

## **GWYNETH YN FAM-GU DDWBL!**

Croeso mawr i efeilliaid newydd Bethlehem, sef wŷr a wyres fach newydd sbon i Gwyneth Lewis, Pentyrch. Ac wrth gwrs, llongyfarchiadau i'r rhieni, Karen ac Owen Lewis. Doedd dim enwau wedi eu dewis adeg cyhoeddi'r rhifyn hwn. Cewch wybod gan Gwyneth, maes o law!

## **CYDYMDEIMLO**

Rydyn ni'n anfon ein cofion at Cadi Wigley, Gwaelod-y-garth, a'r teulu cyfan, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw tad Cadi yn ddisymwth ddiwedd Tachwedd. Rydwn ni'n meddwl amdanoch yn eich colled.



## **YMDDEOLIAD EIRLYS FEL DIACON**

Diolch i Eirlys Davies, Danescourt, am ei gwasanaeth fel diacon yma ym Methlehem. Anodd credu fod ymron i 12 mlynedd wedi mynd heibio ers i'n gweinidog ar y pryd, Y Parchedig Ddr. R Alun Evans, ei chrosawu hi fel diacon (llun ar y chwith). Mae hi nawr am roi'r gorau i'w gofalon diaconaid.

Daeth hi a'i phriod, Cerith, aton ni o Lundain ac mae'r ddau'n parhau'n fynychwyr selog ac yn aelodau bywiog a gweithgar ym Methlehem yn ogystal ag amryw weithgareddau eraill yn yr ardal.



## **A GLYWSOCH CHI AM Y PEDWERYDD BRENIN?**

Wel, dyma ecslwysif y **Seithfed Ffenestr!** Os nad ydych eisoes wedi cyrraedd hanes y "torchau" yn y rhifyn hwn, a'ch bod wedi cyfrif nifer ffenestri Bethlehem yn ystod ambell funud o fyfyrdd, yna fe wyddoch i chwe torch gael ei chynnig i'r gystadleuaeth, gan adael un ffenestr yn ddi-addurn!

Ond wele! (ys dywed pob stori Nadoligaidd dda!) Daeth gwrw doeth gwarcheidiol a hynod greadigol i'r adwy. Dyna egluro'r Doethion

unigryw sy'n addurno'r seithfed ffenestr. Diolch i'r artist nid anenwog am ei waith. (Mae sawl llun ohono yn y rhifyn hwn!) Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael golwg ar Y Doethion hyn – ac er mwyn popeth diolchwch i'r crefftwr am ei waith, gan ei fod yn haeddu pob canmoliaeth!

**NADOLIG LLAWEN A CHOFION AT BAWB OHONOC NA ALL  
FOD GYDA NI'N RHEOLAIDD AR HYN O BRYD.**

## DIOLCH AM Y POPTY

WITH SO MUCH HUMBLENESS AND JOY,  
WE SAY THANK YOU VERY MUCH MR AND  
MRS JONES AND THE BETHLEHEM CHURCH  
FOR YOUR OVERWHELMING KINDNESS AND  
SUPPORT TOWARDS THE KABAJUNTA FAMILY.

THIS MEANS A LOT TO US.

WE ARE STILL TAKING THIS JOY ALL IN  
AND STILL IN AWE OF ALL YOUR  
COMPASSION.

WE TRUALLY BELIEVE YOU ARE GOD'S  
ANGELS THAT HE HAS USED TO REACH  
UNTO US.

OUR PRAYER IS THAT GOD ABOVE REWARDS  
YOU ALL AHUNDREDFOLD.

WITH LOVE AND THANKS.

SUZAN KABAJUNTA.

BABY JETH. J.

Yn ystod Oedfa Aelodau Ffynnon Taf, fe wŷr y rhai oedd yn bresennol i Alwyn Harding wneud apêl am gymorth i Susie, ffoadur o Uganda, sydd bellach yn ceisio sefydlu cartref iddi hi a'i phlentyn yn ardal Caerffili. Soniodd Alwyn mai yr hyn oedd arni hi fwyaf ei angen ar hyn o bryd oedd popty i'w galluogi i baratoi bwyd iddi hi a'i phlentyn bach, Seth. Gyda bendith y Trysorydd, cyhoeddwyd y byddai'r casgliad rhydd y bore hwnnw'n mynd i gefnogi'r angen hwnnw.

Diolch i chi gyd ym  
Methlehem am eich haelondeb  
a'ch caredigrwydd tuag at  
Susie a'i theulu. Bydd yr anian  
yn rhoi dechrau da i Susie ac  
yn rhoi croeso iddi i Gymm.  
Diolch i chi gyd,  
Fflur x

Yn ôl Peredur, ein Trysorydd, roedd £289 wedi ei gyfrannu ar ei union yn y casgliad rhydd i gynorthwyo Susie a nifer o aelodau wedi datgan eu bwriad i gyfrannu ond wedi methu gwneud hynny ar y bore.

Bu'r cyfrif ar agor am wythnos ac o fewn dim roedd ynddo ddigon i brynu'r offer angenrheidiol. Diolch i bawb gyfrannodd.

**(Fe ddaeth y nodyn uchod oddi wrth y teulu bach i gydnabod eich haelioni, ynghyd â'r neges ar y dde oddi wrth Fflur, ddaeth â'r wybodaeth i Alwyn a'r teulu yn y lle cyntaf.)**



# Rhagor o Newyddion Bethlehem



## Cedric Jones

*Ar Dachwedd 20 bu farw Cedric Jones, Radur – un a ddaeth i'n gwasanaethu fel organydd, wedi iddo ef a'i briod Brenda ymaelodi ym Methlehem. Cyn hynny, bu Cedric yn ddiagon cydwybodol ac organydd yn Ebeneser. Estynnwn ein cydymdeimlad â Brenda, ac â Wendy a Jonathan, a'r teulu oll.*

*Dyma deyrnged Wyndham Richards, Radur, a fu'n gyfaill a chydweithiwr iddo yn y BBC am flynyddoedd lawer.*

Yn un o fois Y Bala, ond ei fam o Geredigion, fe ymunodd Cedric â'r BBC fel 'Studio Manager' pan oedd y Gorfforaeth yn darlledu bryd hynny o Park Place yng Nghaerdydd. Bu'n gweithio i'r Gorfforaeth gydol ei yrfa bron, mewn gwahanol swyddi, gan gynnwys cyfnod ar ymlyniad sain i deledu'r BBC yn Llundain. Yna treuliodd gyfnod gweddol hir yn adran Sain BBC Bangor a bu'n fawr ei barch yno gan bawb, yn enwedig James Williams, cynhyrchydd y rhaglenni cerdd a bu'n gweithio iddo'n gyson ar gyfresi fel "Heart and Voice" ar y Rhwydwaith Brydeinig.

Roedd yn gymeriad bywiog llawn hiwmor a phawb yn hoffi gweithio gydag e. Roedd wrth ei fodd yn adrodd storïau am "commissionaires" a "house staff" Bangor, ac am y castiau y byddai ef a'i gyd weithiwr Harri Gwynn yn ei chwarae arnynt o ddydd i ddydd fel hitio'r bel golff yn syth trwy wydr mawr y "Bay Window" yn yr ystafell ymgynnull, a chlymu bumper un o'r ceir wrth goeden, yna ffonio'r perchennog i ddweud wrtho hwyrach fod ei gartre a'r dân! Yn anffodus, mae talp mawr o hanes bywyd cymdeithasol BBC Bangor wedi mynd ar goll ar ôl i Cedric ein gadael.

Ond er yr holl rialtchwch a gwamalu roedd Cedric yn bencampwr yn ei waith a phrin iawn y byddai unrhyw wall yn deillio o'i gyfeiriad ef. Dychwelodd o Fangor i Gaerdydd i swydd bwysig yn yr adran Gynllunio. Ymhen rhai blynyddoedd ar ôl gadael y BBC ffurfiodd y Cwmni Andante a bu'n cynhyrchu "Caniadaeth y Cysegr" am sawl blwyddyn cyn ymddeol. Doedd nemor gapel nac eglwys yng Nghymru nag yr oedd Cedric wedi bod yno. Ar nodyn personol, fe aethom ni'n pedwar am sawl gwyliau tramor a mordeithiau gyda' n gilydd. Roedd y ddau, Cedric a Brenda, yn gwmniwyr da a chawsom lawer o hwyl yn eu cwmni. Y trip gore gawsom ni oedd pump wythnos yn crwydro Seland Newydd ac Awstralia. Cofio yn Seland Newydd cael te mewn ffermdy a finne'n enwi rhai bridiau o ddefaid yng Nghymru ac medde'r ffermwr "You know your sheep don't you?" ac atebodd 'Ced' fel siot "And he likes WELSH lamb too!"

Ar y mordeithiau, bydde ni'n dau yn eistedd gyda phaned i sgwrsio, gan hela'r merched i siopa. Ymhen tipyn o amser roeddem ni'n dal yno a Ced yn llawn hwyliau a storïau am ei hanes yn BBC Bangor, a'r merched yn dychwelyd gan synnu ein bod ni'n dal wrthi. Yn ystod ein mordaith un haf, dyna ferch ifanc ar y bwrdd nesa ato ni yn synnu at yr hwyl oedden ni'n gael wrth sgwrsio ac yn dweud wrth y merched "The boys know each other other well" a Brenda yn ateb "They used to work together in the BBC for about fifty years". Ac medde Ced fel fflach "And I still can't stand the bloke!"

Dyn cerddoriaeth oedd Cedric yn y bôn. Hoffai ef a Brenda fynd i gyngherddau cerddorfaol yn Neuadd Dewi Sant. Bu'n ffyddlon fel organydd mewn sawl capel ac yr oedd ei allu fel organydd yn gelfydd. Dyma un o englynion y Parchedig Brifardd John Gwilym Jones iddo wrth ddathlu ei drigain mlynedd o wasanaeth fel organydd:

*Ar daith hirfaith dy yrfa - yn dy gamp  
troist gerdd yn felystra,  
a'i hael lif fel awel ha'  
i'n hadfer yn ein hoedfa.*



## Colli Rhiannon Evans

Rydyn ni'n anfon ein cofion at Rhys Powys, Llandaf, a'r teulu oll, ar ôl colli ei fam, Rhiannon Evans, yn niwedd mis Hydref. Roedd ei phriod, ein cynweinidog, Y Parch R Alun Evans, wedi ei rhagflaenu y llynedd. Bu Rhiannon yn gefnogol i bopeth oedd yn digwydd yma ym Methlehem, ac yn gefn i Alun, yn ystod ei Weinidogaeth yn ein plith.

Ar ei hanogaeth hi y bu i gantorion Bethlehem dan arweiniad Eilir, ailgyflwyno'r perfformiad o'r "Gwynfydau" yng Nghapel Minny Street, Caerdydd, ddiwedd mis Mehefin eleni. Yn anffodus, doedd ei hiechyd ddim cystal erbyn hynny ac roedd yn chwith ei cholli o'r gynulleidfa.

Bu angladd Rhiannon yn Amlogfa'r Ddraenen gyda gwasanaeth pellach yn Minny Street ar Dachwedd 11<sup>eg</sup>. Dichon fod llawer ohonoch wedi darllen teyrnged Owain Llyr iddi yn y rhifyn cyfredol o'r "Dinesydd". Rydwn ni'n cydymdeimlo fel Tŷ Cwrdd â'r teulu oll, Rhys a Siân, Betsan a Dylan, Jâms ac Anna G, Anna a Gwion, Manon a Madog (ac, erbyn hyn, Soffia Non, fel y gwelwch isod).

## 'Taith Cofio' Ann yn casglu dros £1000



*Llongyfarchiadau i Ann Passmore, Radur, a'r teulu am eu camp yn cyflawni'r daith gerdded oedd yn codi arian at elusen Cymdeithas Alzheimer. Dyma nhw (ar y chwith) ar ddiwedd y daith.*

***Dyma neges Ann:***

*"Cerddais i a'r teulu, yn y Daith Cofio (Memory Walk) ar Sadwrn olaf Medi. Dwi wedi casglu dros £1000 tuag at yr elusen, sef Cymdeithas Alzheimer. Diolch i'r teulu, ffrindiau ac aelodau Bethlehem, fe gyfrannwyd dros fil o bunnau.*

*"Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu."*

Os oes rhywun arall yn awyddus i gyfrannu, yna dyma'r ddolen i'w

dilyn: [https://www.justgiving.com/page/ann-passmore-1724845270516?utm\\_source=Whatsapp&utm\\_medium=email\\_social&utm\\_campaign=LFCFRUK\\_Day7\\_1DonSelf](https://www.justgiving.com/page/ann-passmore-1724845270516?utm_source=Whatsapp&utm_medium=email_social&utm_campaign=LFCFRUK_Day7_1DonSelf)

### ☀ Croeso i Soffia Non!

Mae wyres gyntaf Rhys Powys a'r teulu newydd gyrraedd! Llongyfarchiadau i Anna a Gwion ar enedigaeth eu merch fach, Soffia Anna, ar Ragfyr 2. Un galwad ychwanegol i Sion Corn eleni, felly!

### ☀ Geraint wedi dyweddïo

*Llongyfarchiadau i Geraint Passmore ar ei ddyweddïad gyda Stephanie Turley o Great Barr, Birmingham. Ar ôl bod yn addysgu dramor, mae Geraint bellach yn athro yn Ysgol Gynradd Treganna.*

# DWY OEDFA YN Y FESTRI

## Rhagfyr 1af



(Chwith) Oedfa Gymun yn y Festri gafwyd ar Rhagfyr 1af, dan arweiniad Delwyn. Hwn oedd Sul cyntaf yr Adfent a (dde) Wyndham Richards sy'n cynnau'r gannwyll Adfent. Y linc i'r oedfa fan hyn:

<https://youtu.be/9ADz3IUmw7M>




## Rhagfyr 8fed - Carol, Coffi a Chân

Oedfa dan ofal Sian Meinir gydag Owain Saer yn cyfeilio oedd hon. Rhaid i chi glicio ar: <https://youtu.be/ne1laCmcvA0> i gael gwir flas y pawns gwahanol hwn. Sian yn canu, Owen wrth berdoneg, te, coffi, mins peis a danteithion eraill yn cael ei gwneini i'r gynulleidfa – a hynny tra roedd Sian yn dal i ganu!. A than y mwgwd, wele Marged yn profi ei bod hi'n gallu aroglu'n gywir. (Diolch i Wyn a Heulwen am ofalu am y recordiad.)



Sian Meinir



Owain Saer



Prawf aroglu i Marged



Y gynulleidfa, y darparwyr paned a Sian Meinir ynghyd â siwmpwr fwyaf dymhorol y noson gan Meilir.



## Rhai Oedfaon a fu

...ambell lun ers ein rhifyn diwethaf

Medi 22 - Oedfa Pentyrch (gyda help Tomos) i'w gweld ar <https://youtu.be/EwT6B2RTeZ4>



Medi 29 - Oedfa Ardal Ffynnon Taf - a dyma'r linc i'r oedfa: <https://youtu.be/WfQBnuI9QKE>



Oedfa Adferiad Hydref 27 - Efa Grug, Delwyn a Wynford – linc: [https://youtu.be/\\_4ccPczPkKA](https://youtu.be/_4ccPczPkKA)



Gŵyr rhai ohonoch mai Rhys Powys oedd wedi trefnu'r Oedfa ond oherwydd y brofedigaeth deuluol, bu gofyn i Delwyn gamu i'r adwy yn ei le i gadw cwmni gydag Efa Grug a Wynford Ellis Owen.

**Bore oedfa Cymun Mis Hydref – (llun cyfansawdd o’r sesiwn gwrando adnodau**



A dyma’r linc i’r oedfa uchod: <https://youtu.be/YwvU5nA1pvU>

**Hefyd – dyma rai o genhadon unigol y cyfnod diweddar... gyda diolch i bob un, gan obeithio nad ydyn ni wedi gadael neb allan!**



Ar y dde - Allan Cook ar Fedi 15

– a dyma’r linc:

<https://youtu.be/oY1wW6MimuE>

Ar y chwith- Aled Edwards  
ar Hydref 20



(ar y chwith) – Tachwedd 25 – oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel, gyda Wil Wyatt yn ledio’r Emyn. Dyma’r linc:

<https://youtu.be/BmtnIIAPqNM>

(ar y dde) Y Parch Dafydd Andrew Jones yn Oedfa’r Cofio ar Dachwedd 10 gydag Alys yn ledio’r emyn. Dyma’r linc:

<https://youtu.be/KZmMujqOIQM>



*(Diolch i Wyn Jones, mae’r oedfaon uchod ar gael ar y we)*

**Ac i’ch atgoffa eto... dyma oedfaon Rhagfyr**

*15 – Oedfa 9 Llitih a Charol (5:00 p.m.)*

*22 – Nadolig yr Ysgol Sul (10:30 a.m.)*

*25 – Oedfa Bore’r Nadolig (am 10:00 a.m.)*

*29 – DIM OEDFA*

# Diolch am y Dwylo

Bore Sul, Hydref 13, 2024

Diolch i aelodau ac athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith, i Heulwen am gydlynu a llywio ac i Anthony a Marian am eu cyfraniadau bywiog a lliwgar ar y thema "Dwylo". Mae'r oedfa gyflawn i'w gweld ar y we – dim ond clicio ar y ddolen hon: <https://youtu.be/hzmK5jtx0EI>. A diolch, fel arfer i Wyn am yr holl recordiadau.



Heulwen



Alaw



Alys ac Anni



Sara



Gwenan ac Awen



Pegi



Anthony



Marian



Megan

## Te, China a Thwyll

Allan Cook oedd gwr gwadd y Cwrdd Merched ym mis Hydref a bu'n trafod peth o'i gasgliad o lestri dan y teitl a welir uchod.

Dechreuodd trwy ddangos bowlen a soser o China oedd wedi bod ar waelod y môr am dros 200 mlynedd. Bowlen te, nid cwpan gyda dolen, oedd yn cael ei ddefnyddio nôl yn 1752.

Roedd y fowlen a'r soser ar long o'r Iseldiroedd, y Geldermaisen, oedd wedi suddo ym môr De Tsieina ym mis Ionawr 1752 yn llawn o lestri tsieni (*china*) o Tsieina ar y ffordd i Ewrop. Darganfuwyd y llong mewn 132 troedfedd a ddŵr yn 1985 gyda dros 170,000 o ddarnau o 'china' ar ei bwrdd. Gwerthwyd y 'china' yn Nhŷ Ocsiwn Christie's yn Amsterdam yn 1986 am dros 15 miliwn o ddoleri. Pwysleisiodd Allan y pwysigrwydd o gadw label Christie's ar y fowlen fel rhan o darddiad ("*provenance*") y llestri.

Doedd y Tsieineaid ddim yn fodlon ddatguddio cyfrinach gwneud porslen ac felly roedd pobl yn Ewrop yn ceisio darganfod y gyfrinach. Ffatri Meissen yn yr Almaen oedd y cyntaf i wneud porslen yn Ewrop tua 1700. Erbyn 1750 roedd y gyfrinach wedi cyrraedd Prydain ac mae yna ddau gwmni, Derby a Caerwrangon (Worcester), yn honni mae nhw ydi'r rhai hynaf ym Mhrydain. Er bod y gyfrinach ar gael ym Mhrydain roedd pobl yn parhau i geisio canfod ffyrdd o wella porslen, ac roedd y 'china' o Tsieina yn dal i fod yn ffasiynol.

Felly, o ble daw'r twyll i'r hanes? Y Tsieineaid oedd y cyntaf i dwyllo ym myd llestri trwy rhoi marc ar lestri sy'n cyfleu ei bod nhw'n hŷn nag ydyn nhw mewn gwirionedd. Dangosodd Allan flwch te oedd wedi ei greu yng Nghaerwrangon tua 1770 gyda marc Tsieineaid, gan geisio twyllo'r prynwr bod y blwch wedi'i wneud yn Tsieina.



Yna, aeth ymlaen i olrhain gyrfa William Billingsley, un o'r bobol bwysicaf yn hanes llestri ym Mhrydain. Dechreuodd Billingsley fel prentis peintio llestri yn ffatri Derby. Symudodd nifer o weithiau, gan gynnwys i un o ffatrioedd Caerwrangon, cyn dod i Gymru. Billingsley oedd yn gyfrifol am wneud porslen yn Nantgarw ac yn Abertawe. Mae'n bwysig cofio mae dim ond am gyfnod o lai na 10 mlynedd y gwnaethpwyd porslen yng Nghymru, dyna pam mae porslen Nantgarw ac Abertawe mor ddrud heddiw.

Ar gyfer y cyfoethog roedd porslen yn cael ei greu. Daeth sgwrs Allan i ben drwy edrych ar enghreifftiau o lestri oedd wedi gwneud yng Nghymru ar gyfer y werin bobol; y ddwy ffatri ar gamlas Abertawe, yn Llanelli ac yn Ynysmeudwy, Pontardawe.



John Denver gyflwynodd fi gyntaf i Alaska, gyda'i aml gyfeiriad yn ei ganeuon, at afonydd, mynyddoedd a bywyd gwyllt y dalaith mwya gogleddol o'r Unol Daleithiau. Rhan o Ogledd America fu unwaith dan berchnogaeth Tsar Rwsia ond a werthwyd yn 1867 i Lywodraeth Washington am un doler. Talaith sydd wedi ei hynysu o'r gweddill o UDA gan beth sydd heddiw yn Canada, ond oedd, ganrif a hanner yn ôl, yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig, gelyn mwya' Rwsia ar y pryd. Anchorage oedd lle y glaniodd yr awyren ar fy ymweliad cyntaf ag Alaska - ar fy ffordd i Siapan ar ysgoloriaeth Churchill ddeugain mlynedd yn ôl.

Lle oer ydi Alaska. Hynod oer. Gwlad lle mae hyd yn oed yr arth fwyaf yn cysgodi rhag y gwynt a'r eira am o leia chwe mis bob blwyddyn – yr hanner o'r flwyddyn sydd hefyd yn dywyll am y rhan fwyaf o bob dydd.

Canol Haf oedd hi y tro hwn wrth i'r fordaith o Vancouver hwylio i bellafoedd moroedd llawn morfilod ac eogiaid. Galw heibio i borthladdoedd tebyg i Ketchikan a Skagway, pentrefi fawr mwy na Porthmadog neu'r Cei Newydd.



Teithio, ar ôl glanio, i ganolfannau llawn meini coffa yn bolion neu *plateau* wyneb. (*uchod - y chwith a'r dde*). Mae'r cerfluniau hyn wedi eu naddu o Bren cedrwydd ac yn unigryw i'r rhan yma o Ogledd Orllewin Alaska. Mae'n debyg bod y brodorion cynhenid, oedd yn byw yma cyn i'r mewnfudwyr o dras Ewropeaidd gyrraedd, yn defnyddio y pyst hyn, nid yn unig i gofio am aelod pwysig o'r llwyth, ond hefyd i ddangos i ymwelwyr eu bod nhw wedi eu symud o dir llwyth Haida dweder i diriogaeth y Nuxalk neu y Tsimshian. Mae lliw paent y gwahanol totem , a maint y llygaid neu clustiau, hefyd yn brawf o gymeriad gwahanol y cymunedau a'r llwythi. Bu yna ymdrech gref gan

y mewnfudwyr oedd yn edrych am aur, a llywodraethau yr Unol Daleithiau a Canada, i wahardd y fath symbolau, gan eu bod yn dadlau bod y 'potlatch', sef y ddawns i groesawu Totem Newydd, yn rhwystr i integreiddio y brodorion gyda gweddill trigolion y ddwy "wlad Newydd" Yn ffodus, mor ddiweddar a 1951, fe welwyd synnwyr cyffredin ac fe gafwyd gwared o 'Ddeddf India', a chaniatáu i hen draddodiadau cael eu derbyn fel rhan gyfoethog o ddiwylliant a hanes Alaska.

Ymlaen wedyn i Juneau, a synnu clywed mai y porthladd bach hwn ydi prifddinas Alaska. Pentref heb na ffordd na phont i'w gysylltu â'r gweddill o'r dalaith. Hedfan neu hwylio ydi'r unig ffordd i mewn ac allan ohono.

Cael cynnig ymweliad arall i amgueddfa neu barc totem. Penderfynu gwrthod a cheisio cerdded i gael gwared ar effeithiau wythnos o loddesta ar y gwch. A dyma fynd i fewn i siop gwerthu nwyddau lleol a gweld ar y



set deledu uwchben y cownter delweddau oedd yn debyg iawn i seremonïau gorsedd Yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dyma holi beth oedd yn digwydd a chael ar ddeall bod Eisteddfod Llwythau Alaska yn cael ei gynnal yn y neuadd gyfagos.

Wel sôn am olygfa. Pawb wedi gwisgo mewn dillad o bob lliw, ac yn dawnsio, canu a llefaru ar lwyfan enfawr gyda camerâu yn darlledu y digwyddiad yn fyw yn lleol. Tlingit oedd iaith y seremonïau, gyda baneri yn dweud wrtha i bod cynrychiolwyr y Thunderbird clan a'r Raven Sockeye clan yno ymysg y cannoedd o Eisteddfodwyr, yn ogystal â'r Kwakwaka wakw a'r Llwyth Salish, i gyd yn dathlu deuddydd o gystadlu brwd.



Ei heglu hi i wedyn am y cwch oherwydd petai rhywun yn hwyr ac yn colli' fordaith byddai'n rhaid aros wythnos cyn dal y cwch nesa nôl adre. Rhaid cyfadde bod hynny, yng ngwres a hwyl y Steddfod wedi apelio'n fawr i mi!

## Y TORCHAU OLL I GYD!

Dyma nhw, y rhai fu'n gyfrifol am yr addurniadau ffenestr ym Methlehem eleni. Treuliwyd yr orig yn y festri a chodwyd swm sylweddol at ein helusen leol, Alzheimer Cymru – fel gwelwch chi o wynebaw Delwyn a'n trysorydd. Diolch i bawb ac yn arbennig i'r un fu'n arlwyo'r te a'r coffi, Ann Passmore.



**“Annwyl Marged. Dy dro di a Pwt yw hi i baratoi'r Cymun ar gyfer dydd Sul. Ti ar ga'i i 'neud? Cofion, Joy!”**

O na! Na, doeddwn i ddim ar gael! Roeddwn i ar drip Côr Caerdydd i'r Eidal i ymweld a Gŵyl Carwyn James! Dyma droi at Heulwen a rhannu'r broblem – mond i'w hatgoffa hithau ei bod angen trefnu rhywbeth ynglŷn a'r ysgol Sul! Ta waeth, dyma roi gwybod i chi beth oeddem ni'n ei wneud i'n cadw rhag y Cymun ym Methlehem.

Tair cyngerdd ac offeren mewn pedair diwrnod! Cynhalion ni gyngerdd gyda'r nos yn Adria gyda pharti o ferched lleol. Braff oedd gweld y 'bambini' a'r 'bambine' yn crwydro'r dref yn eu gwisgoedd Calan Gaeaf gyda'u rhieni a'r siopwyr yn barod amdany'n nhw gyda'u 'dolce'. Amser KO y gyngerdd yn Auditorium Teatro Pertini oedd 9.00 ond roedd hi'n 9.30 cyn y canwyd yr un nodyn! Coro Plinius Direto da Antonella Pavan oedd yna gyda ni ac roedd ganddyn nhw leisiau alto bendigedig.



Gadael Monselice amser cinio ddydd Gwener a throi am Rovigo. Yn Rovigo bu Carwyn James yn hyfforddwr dros ddeugain mlynedd yn ôl, ac roedd hi'n amlwg ei fod yn uchel iawn ei barch yna o hyd. Canon ni yn Chiesa Parracchiale Santa Maria Assunt gyda Coro Monte Pasubio Rovigobanca. Uchafbwynt y cyngerddau i mi oedd cyd-ganu *Signore delle cime* gyda nhw. Daeth hyn yn gynt na'r disgwyl i ni yn yr eglwys hyfryd hon ac er bod nifer o'r côr wedi derbyn rhybudd cyn cyrraedd y llwyfan ac felly wedi llwyddo dod â chopi, fy mhrif broblem i oedd nad oedd gen i sbectol ac felly fedrwn i ddim darllen y copi a rannwyd â mi! Diolch bod eu harweinydd nhw yn geirio mor arbennig ac y gallais ddilyn yn weddol! Cân hyfryd am gyfaill iddynt fu farw tra'n mynydda ac roedd hi'n amlwg yn agos iawn at galonnau'r Eidalwyr. Pan ymunon ni gyda nhw ar ddiwedd y cyngerdd mewn pabell tu allan sylweddolon ni mai dyna lle ddiplannodd nifer o'r dynion yn ystod ein perfformiad – i baratoi ein swper! Braff oedd cael cwmni nith Carwyn a'i merch i

ymuno â'r dathliad o'i fywyd a hwythau wedi teithio bob cam o Sir Benfro. Profiad amheuthun oedd cael canu gyda'r nos yn Collegiata Santa Maria yn Pieve di Cento. Ein cwmni yn yr eglwys ysblennydd oedd Corale Santa Maria Maggiore di Pieve di Centro. Dyna braff oedd cael ein cyflwyno gan wyneb cyfarwydd Menna Price, gynt o Gaerdydd, sy'n byw yn yr ardal. Roedd lasagne blasus yn ein disgwyl wedi'r canu a môr o groeso.



Fore Sul, yn lle bod ym Methlehem, roedden ni'n cymryd rhan yn offeren Basilica San Antonio – dyna beth oedd profiad. Cannoedd yn y gynulleidfa ac acwsteg yr adeilad (fel yr eglwysi eraill a bod yn deg) yn rhyfeddol. Wrth reswm yn Lladin cynhaliwyd yr offeren ac er na allem ymuno yn y rhannau cynulleidfaol roedd yr eglwyswyr yn ein plith yn deall yn iawn beth oedd yn digwydd. Cyn rhannu cinio gyda'n gilydd ymwelon ni â chaffi merch o Gastell Newydd Emlyn, un roedd Delwyn a Meilyr wedi cwrdd â hi tra'n cefnogi'r Sgarlets wythnosau o'n blaen ni. Dyna beth oedd croeso.

Taith hyfryd a digon o hwyl. Beth fwynhaodd yr Eidalwyr orau? Cyd ganu *Signore delle cime* ymhob cyngerdd a'n datganiad nosweithiol (ar eu cais nhw) o Hen Wlad fy Nhadau! Angerdd a thynerwch rhannu diwylliannau a chyfeillgarwch. Diolch am brofiad arbennig Côr Caerdydd!



*Cyfarfu'r Diaconiaid ddiwethaf ar yr 20fed o Hydref 2024. Nodwyd y canlynol fel materion a gafodd sylw:-*

- System oleuadau hwylus ar gyfer y Capel
- Cyhoeddi hanes y Capel
- Cwrdd â chefnogwyr "Plan International"
- Canllaw o gyntedd y Capel i'r Galeri; Cwblhau'r canllaw yn y Galeri (gyferbyn a'r grisiau sy'n arwain at y seddau)
- Arolwg cyflawn o'r Capel a'r Festri yn unol a'r "Heulwen Dan Gwmwl" (Creu eglwys Dementia-gyfeillgar")
- Cynnal cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr
- Derbyd aelodau newydd – nodwyd bod cyfle i gynnwys nifer o fynychwyr rheolaidd fel cyflawn aelodau yn y dyfodol agos.
- Awgrymwyd y gellid paratoi "Noson o Ddrama" neu "Banto" yn ystod tymor y Gwanwyn 2025, gyda'r bwriad o apelio at yr ieuenctid.
- Dewis elusen ar gyfer 2025/27 – nodwyd bod cyfle i ddewis elusen leol wahanol i'w chefnogi o fis Medi 2025 hyd at Gorffennaf 2027. Byddid yn ymgynghori a'r aelodaeth yn gynnar yn y flwyddyn newydd.
- 'Roedd aelodau'r Tabernacl, Efail Isaf, yn awyddus i chwilio am gyfleoedd ychwanegol i gydweithio, yn enwedig yn ymarferol, megis darparu dodrefn neu debyg er cefnogi teuluoedd anghenus.
- Cytunwyd y gallai WJ symud 'mlaen i bwrcasu cyswllt gwe ar gyfer y Capel – byddai hyn yn fanteisiol am sawl rheswm, ac yn hwyluso trefniant gwresogi'r adeiladau yn ystod tymor y gaeaf.
- Nodwyd bod tudalennau "Archif" y Capel yn dechrau cael eu llenwi (Hanes / y Gymanfa / Dramâu'r Nadolig) ac y bydd mwy o gynnwys yn cael ei ychwanegu yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Dodrefn ar gyfer y Festri: canfod dodrefn priodol ar gyfer y Festri, fyddai yn cymryd llai o ofod i'w cadw, ac yn saffach i'w trin na'r dodrefn presennol.

Cytunwyd symud 'mlaen ar sail y costau tebygol a ellid ei ddisgwyl.

- Yn yr un modd dylid holi am ddarpariaeth camera Sefydlog ar gyfer defnydd yn y Capel.
- Cadarnhawyd bod "meics" newydd wedi eu gosod yn y pulpud yn y Capel.
- Cytunwyd i gyfrannu £1500 arall i Apêl (gyfredol) DEC Gasa.
- Nodwyd bod Cyfrifon 2023/24 yn cael eu cwblhau

- Cadarnhawyd derbyn sic gwerth £35,000 oddi wrth Ymddiriedolwyr Capel Sardis, Pontypridd, yn dilyn gwerthu'r adeilad. Cyflwynwyd swm tebyg i'r Tabernacl, Efail Isaf, a Chapel Bethel, Penarth (a neilltuwyd symiau i Gyfundeb Dwyrain Morgannwg ac Undeb yr Annibynwyr). Mynegwyd fel a ganlyn gan yr Ymddiriedolwyr wrth gyflwyno'r rhodd:-
- *“Cytunwyd na fyddai'r rhoddion yn cefnogi'r capeli i gynnal gweinidog nag i gynnal a chadw adeiladau'r capel ond yn hytrach i ddatblygu a chefnogi mentrau arloesol.”*

Ac hefyd wrth gloi,

*“Wrth ddyrannu'r arian gobeithiwn y bydd modd i bawb ei ddefnyddio i hybu arloesedd i'r dyfodol.”*

Mater a godwyd wedi'r Pwyllgor – Bydd y Trysorydd, yn unol a'r hyn a wnaethpwyd o gwmpas Nadolig 2023, yn trosglwyddo swm o £1000 yn rhodd i gyfrif Banc Bwyd Caerdydd ar ran y Capel.

- Cadarnhawyd bod cynrychiolwyr wedi mynychu cwrs “dros Zoom” ar gyfer “cydlynwyr” oedd wedi ei drefnu gan y Panel Diogelwch ar y 29ain o Chwefror 2024.  
Roedd rhai hefyd *“...wedi cwblhau proses wirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac wedi derbyn tystysgrif datgeliad ar gyfer y rôl /swyddi a nodir gydag eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth.”*
- Oedfaon Dementia-gyfeillgar – nodwyd bwriad i gynnwys oedfaon yn ystod y flwyddyn, heb gyhoeddusrwydd, fyddai'n dilyn y canllawiau yn “Llawlyfr Creu Eglwysi Dementia-gyfeillgar”.
- Mynegodd Eirlys Davies (Llandaf) ei bwriad i ymddeol o'i dyletswyddau fel Diacon yn y Capel. Mynegwyd diolch iddi ar ran y Diaconiaid am ei gwasanaeth dros gyfnod helaeth o amser.
- Cytunwyd y dylid gwahodd yr aelodaeth i ystyried sefyllfa Diaconiaid Bethlehem yn fuan gyda'r argymhelliad o du'r Diaconiaid y dylid ychwanegu at y rhengoedd.
- Nododd Delwyn Sion ei fod eisoes, gan ddilyn patrwm cydnabyddedig un o gyn-weinidogion y Capel, wedi gwahodd Paul Garside, sydd a gofal “trefn y Suliau”, i ymuno a'r Ddiaconiaeth. Cytunwyd yn llawen a'r hyn wnaed.
- **Cylch Cadwgan** – cadarnhawyd mai Eurig Davies, yn traddodi ar “Beibl Peter Williams”, fydd cyfraniad Bethlehem i Gylch Cadwgan yn ystod y tymor presennol, a hynny ar y 24ain o Ionawr 2025.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 16eg o Chwefror 2025

# ODLAU'R GARTH

*"Cariad" oedd thema oedfa Alwyn Harding ac aelodau ardal Ffynnon Taf. Dyma'r gerdd gyflwynodd Martin Huws yn ystod y myfyrdod:*

## Cariad

*Wedi ei hysbrydoli gan gwpled y Gymraes Iracaid, Hana Issa, ein Bardd Cenedlaethol*

Llyn yw cariad.

Fe all droi'n ferddwr heb ddigon o ofal.

Fe all droi'n hafn anial os yw'r gwres yn crasu.

Weithiau, os daw tywydd mawr, fe all orlifo ei lannau  
neu godi a gostwng fel gwenith yn y gaea.

Llyn yw cariad.

Fe all rewi'n gorn ganol gaea noethlwm  
neu gydio mewn calon,  
llonyddu pob ofan, tawelu pob storom  
os caiff gyfle. Dim ond cyfle.

Llyn yw cariad  
ac mae ei angen,  
yn enwedig heddi,  
gan fod y byd yn sychedu.

*Martin Huws*

## CAROL I BLANT

*Wedi selio ar stori Almaeneg. Clywodd y pry copyn yn y stabal si fod milwyr Herod yn chwilio am y baban Iesu. Roedd e'n gwybod fod Herod yn ddyn drwg iawn, felly dyma fe'n mynd at ddrws y stabal, a'i orchuddio gan we. Pan ddaeth y milwyr heibio, meddent "Does neb mewn fan hyn mae'r wê ma'n gyfan" a bant a nhw!*

Roedd Iesu yn y stabal  
yn glyd o'r glaw a'r gwynt,  
yng ngofal Mair a Joseff  
a Herod ar ei hynt.

Yn y gornel roedd pry copyn  
a dechreuodd nyddu' i we,  
a chyn bo hir roedd ei sidan  
yn orchudd dros y lle.

Pan ddaeth y milwyr heibio,  
a'r we yn gyfan glyd,  
'doedd dim arwydd fod neb yno,  
ond tu ôl roedd Brenin Byd.

Aethant heibio, do i'r stabal  
wedi'u twyllo yn llwyr.  
a'r pry copyn yn ei gornel  
yn gwenu tan yr hwyr.

Diolch iti bry copyn  
am fod ym Methlem Dre',  
a chadw Iesu'r baban  
yn saff tu ôl i'th we.

Fe wnest ei weu yn garcus,  
a'i roi fe yn ei le,  
a dyna dy gymwynas  
i warchod Brenin Ne'.

*Hanna Roberts*

***Awydd anfon cyfraniad i Rifyn 50 o "Gair bach Bethlehem"?***

*Hwn fydd yn crynhoi gweithgaredd y Nadolig a'r Calan.*

***Ewch ati nawr – ac anfon gair erbyn Ionawr 13, 2025 at:***

***tycnau@aol.com Diolch i bawb.***